# Cynllun Blynyddol 2015/16

## Gwahoddiad i Gyflwyno Sylwadau

Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 17 Medi 2014 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: | 15 Hydref 2014 |

# Gwybodaeth am y ddogfen hon

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol sy’n disgrifio ein rhaglen waith a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ar hyn o bryd, rydym yn dechrau gweithio ar y Cynllun a fydd yn ymwneud â’n rhaglen waith o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016.

Mae’r ddogfen hon yn gyfle cynnar i'r rheini sydd â diddordeb yng ngwaith Ofcom i gyflwyno sylwadau ar ddulliau gweithredu a dibenion strategol Ofcom, ac i awgrymu unrhyw weithgareddau a ddylai fod yn rhan o'n blaenoriaethau a'n prif feysydd gwaith yn 2015/16. Byddwn yn ymgynghori ynghylch y cynigion drafft llawn ym mis Rhagfyr eleni.

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ein Cynllun Blynyddol a’r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau | 1 |
| 2 | Dyletswyddau a strategaeth Ofcom | 2 |
| 3 | Blaenoriaethau Ofcom ar gyfer 2014/15 | 5 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 7 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 9 |
| 3 | Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad | 10 |
| 4 | Cwestiynau'r ymgynghoriad | 12 |

## Adran 1

# Ein Cynllun Blynyddol a'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau

1.1 Yn rhinwedd ein swydd fel rheoleiddiwr y diwydiant cyfathrebu, rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebu symudol a llinell sefydlog, y gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau cyfathrebu diwifr yn eu defnyddio ac y darlledir gwasanaethau teledu/radio arnynt.

1.2 Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol sy'n disgrifio ein dibenion strategol, ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r Cynllun yn rhoi gwybod i randdeiliaid a'r rhieni sydd â diddordeb yng ngwaith Ofcom beth allent ddisgwyl ei weld yn y flwyddyn i ddod.

1.3 Rydym bellach wedi dechrau gweithio ar ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y deuddeg mis o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 ac ar y cam hwn, hoffem wahodd rhanddeiliaid i gyflwyno sylwadau y gallwn eu hymgorffori yn ein Cynllun Blynyddol Drafft. Byddwn yn ymgynghori ar y fersiwn drafft hwn ym mis Rhagfyr eleni, ac ar ôl yr ymgynghoriad bwriadwn gyhoeddi'r Cynllun Blynyddol terfynol ym mis Mawrth 2015.

1.4 Yn benodol, hoffem gael sylwadau cynnar ar y canlynol:

- newidiadau posibl i ddulliau gweithredu a dibenion strategol cyffredinol Ofcom sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Blynyddol y flwyddyn bresennol[1];

- y materion a'r meysydd y dylem roi blaenoriaeth iddynt neu y dylem eu hystyried yn brif feysydd gwaith yn 2015/16; ac

- unrhyw feysydd penodol y dylid eu dadreoleiddio neu eu symleiddio.

1.5 Rydym yn annog rhanddeiliaid a'r rheini sydd â diddordeb yng ngwaith Ofcom i ymateb i'r Gwahoddiad hwn i Gyflwyno Sylwadau erbyn 15 Hydref 2014.

[1] http://www.ofcom.org.uk/files/2014/03/Annual_Plan_1415.pdf

Adran 2

# Dyletswyddau a strategaeth Ofcom

## Dyletswyddau Ofcom

2.1 Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai prif ddyletswydd Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebu, a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol.

2.2 Mae swyddogaeth Ofcom yn cynnwys sicrhau'r canlynol:

- y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm electromagnetig yng nghyswllt telegraffiaeth ddiwifr;
- y darperir amrywiaeth o wasanaethau cyfathrebu electronig ledled y DU;
- bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio o safon uchel ac apêl eang ar gael yn y DU;
- bod digon o ddarparwyr gwasanaethau radio a theledu gwahanol ar gael; a
- bod aelodau o'r cyhoedd ac eraill yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag deunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd a rhag triniaeth annheg mewn rhaglenni neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

2.3 O ran y post, mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol[2]. Mae'n ofynnol i ni roi blaenoriaeth i'r ddyletswydd hon dros ein prif ddyletswyddau os ymddengys bod gwrthdaro rhwng y naill a'r llall.

## Strategaeth Ofcom

2.4 Isod, amlinellir ein dull gweithredu, ein dibenion strategol a'n strategaeth gyffredinol fel y'u nodwyd y llynedd er mwyn rhoi cyd-destun i'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau ac i ddisgrifio sut rydym yn bwriadu cyflawni ein nodau.

### Ein strategaeth gyffredinol yw sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebu'r DU yn gweithio i gefnogi buddiannau defnyddwyr a dinasyddion

**Strategaeth Ofcom**


Byddwn yn gweithio ar ran defnyddwyr a dinasyddion drwy hybu cystadleuaeth effeithiol, dewisiadau gwybodus a'r cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys y post. Byddwn yn sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, drwy fecanweithiau marchnad pan fo'n bosibl a chamau rheoleiddio pan fo angen. Byddwn yn rhoi diogelwch cymesur i ddefnyddwyr ac yn helpu i gynnal hyder cynulleidfaoedd yn y cynnwys a ddarlledir. Byddwn yn cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel a lluosogrwydd perchnogaeth o'r cyfryngau.

[2] Fel y nodwyd yn Adran 29 Deddf Gwasanaethau Post 2011

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn byddwn yn ymgynghori'n dryloyw ac yn gymesur. Byddwn yn cael gwybodaeth drwy ymchwil a gwybodaeth o ansawdd uchel a byddwn yn rhannu hynny'n eang. Byddwn yn ystyried amrywiaeth y DU a'i gwledydd. Byddwn yn ceisio bod yn arloesol, yn ymatebol ac yn effeithiol ym mhopeth a wnawn.

### Ffigur 1: Strategaeth Ofcom

**Beth rydym yn ei wneud i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion...**




**... a sut y byddwn yn ymddwyn wrth wneud hyn**




2.5 Mae **cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau gwybodus** ar draws pob gwasanaeth cyfathrebu yn elfen allweddol o'n strategaeth i sicrhau marchnadoedd cystadleuol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ar yr ochr gyflenwi, er enghraifft, pennu polisïau cystadlu ar gyfer gwasanaethau lle ceir tagfeydd economaidd, a gweithgareddau ar gyfer yr ochr galw, er enghraifft rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i gwsmeriaid a fydd yn eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus, er enghraifft drwy gyhoeddi data ar gyflymderau band eang.

2.6 Mae **sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau** yn elfen hanfodol o'n strategaeth ac yn un o'n meysydd gwaith mwyaf. Defnyddio mecanweithiau'r farchnad yw'r dull sydd orau gennym, ond, mewn rhai achosion, rydym yn cydnabod efallai bydd angen cymryd camau rheoleiddio. Enghraifft allweddol o'n gwaith diweddar yn y cyswllt hwn yw ein bod wedi darparu gwasanaeth rheoli sbectrwm ac ymyrraeth llwyddiannus ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014.

2.7 Rydym yn parhau i **hyrwyddo'r cyfle i gymryd rhan** yn y gymdeithas yng nghyswllt defnyddwyr a dinasyddion drwy sicrhau bod amrediad eang o wasanaethau cyfathrebu ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys sicrhau y darperir gwasanaethau cyffredinol yn effeithol ac yn effeithlon, a rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r cwsmeriaid hynny y mae fwyaf angen cymorth arnynt.

2.8 Er bod marchnadoedd cyfathrebu effeithiol yn cynnig amryw o fuddion i ddefnyddwyr, mae camau diogelu ychwanegol ar waith gennym o hyd er mwyn **amddiffyn defnyddwyr rhag niwed.** Yn ddiweddar, mae ein gwaith yn y maes hwn wedi cynnwys mynd i'r afael â chodi prisiau ar ganol contract.

2.9 Rydym yn cynnal **hyder y gynulleidfa yn y cynnwys sy'n cael ei ddarlledu** drwy ein gweithgareddau trwyddedu a gorfodi, a drwy helpu i sicrhau bod rheoliadau yn gydnaws â disgwyliadau'r gynulleidfa o ran safon y cynnwys, megis yng nghyswllt ein hymchwil i agweddau tuag at drais ar y teledu.

2.10 Rydym hefyd yn parhau i **gyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd**. Mae gennym swyddogaeth i'w chyflawni yng nghyswllt llunio polisïau, eu rhoi ar waith a'u gorfodi, i sicrhau eu bod yn darparu'r canlyniadau a fynnir gan ein dinasyddion.

## Adran 3

# Blaenoriaethau Ofcom ar gyfer 2014/15

3.1 Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn 2014/15, sy'n para tan ddiwedd Mawrth 2015, wedi'u nodi isod:

### Ffigur 2: Blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2014/15

**Hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yng nghyswllt materion cyfathrebu**

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau gwybodus | Sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm | Hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan | Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed | Cynnal hyder y gynulleidfa yn y cynnwys a ddarlledir |
|---|---|---|---|---|
| • Sicrhau cystadlu effeithiol a buddsoddi mewn band eang cyfredol ac mewn band eang cyflym iawn<br>• Hyrwyddo dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn rhwydd<br>• Llunio polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws i newid darparwr gwasanaethau cyfathrebu, a'u rhoi ar waith | • Darparu gwasanaeth rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014<br>• Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4 GHz ac ar gyfer y posibilrwydd o newid o ran defnyddio'r band 700 MHz<br>• Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn ac ymchwilio i gyfleodd i rannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol | • Sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol | • Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau | • Hybu diogelwch a sicrwydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol |

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith**

- Sicrhau bod cynigion 'Connected Continent' y Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n cyd-fynd â buddiannau'r DU

3.2 Yn y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi symud ymlaen ag ystod o feysydd â blaenoriaeth, prif feysydd gwaith a gwaith rhaglenni, er enghraifft:

- cwblhawyd yr adolygiad o'r farchnad band cul ym mis Medi 2013 ac mae'r adolygiad nesaf o'r farchnad hon i fod i ddechrau yn 2015/16;
- cwblhawyd yr adolygiadau o'r farchnad band eang cyfanwerthol a mynediad sefydlog ym mis Mehefin 2014 (dylai'r mater cysylltiedig â'r bwlch VULA fod wedi'i ddatrys ym mis Rhagfyr 2014);
- mae'r adolygiad o'r farchnad terfynu galwadau symudol i fod i gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2015;
- dechreuodd yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes ym mis Ionawr 2013 ac mae hwn i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2016. Cyhoeddwyd ymgynghoriad

(cais am fewnbwn) ym mis Ebrill 2014, ac mae ymgynghoriad llawn i fod i gael ei gynnal ym mis Mawrth 2015;  ac

- ym mis Mai 2014, cyhoeddwyd ein strategaeth Dyfodol Teledu Gwylio am Ddim. Bydd mwy o waith yn y maes hwn yn arwain at ein paratoadau ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd 2015 a rhoi ein strategaeth sbectrwm UHF ar waith.

3.3 Ers cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol, mae nifer o feysydd gwaith ychwanegol wedi codi, ac rydym wedi ymateb i'r rhain, er enghraifft:

- rydym wedi cynnig canllawiau a gofynion newydd mewn perthynas â bwlch BT ar gyfer cynnyrch sy'n seiliedig ar VULA er mwyn hybu cystadleuaeth yn y farchnad sy'n tyfu ar gyfer cwsmeriaid band eang cyflym iawn;
- rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar gyfer y Llywodraeth sy'n amlinellu'r camau y mae darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd mwyaf y DU wedi'u rhoi ar waith i gyflwyno gwasanaeth hidlo sy'n ystyriol o deuluoedd ar lefel rhwydwaith, sy'n golygu bod deiliad y cyfrif yn gallu dewis blocio cynnwys ar y we a allai fod yn anaddas i blant;

- rydym wedi gosod safonau perfformiad newydd ar Openreach, a daeth y rhain i rym ar 1 Gorffennaf 2014.  Nod y rhain yw sicrhau bod cwsmeriaid ffôn a band eang yn gweld gwaith gosod ac atgyweirio llinellau yn digwydd yn gynt; ac

- ym mis Medi 2014, rhoesom amlinelliad o'r rhaglen waith sydd gennym a luniwyd gyda'r nod o alluogi busnesau bach i gael y fantais orau bosib o wasanaethau cyfathrebu yn y DU.  Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer y cwmnïau hyn ar ymrwymo i gontractau newydd ar gyfer gwasanaethau ffôn llinell sefydlog, band eang a ffôn symudol.

3.4 Ochr yn ochr â'r meysydd hyn, rydym hefyd yn ymgymryd ag ystod o waith arall yn y flwyddyn gyfredol. Mae manylion ynglŷn â'r gwaith hwn ar gael yng Nghynllun Blynyddol[3] 2014/15.

3.5 Rydym nawr yn ystyried beth y dylai ein blaenoriaethau a'n prif feysydd gwaith fod ar gyfer 2015/16. Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno'r rhain yn unol â'n chwe diben strategol sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 2.4 i 2.10 uchod.

3.6 Yn eu hymatebion i'r gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau, rydym yn ceisio barn ein rhanddeiliaid ar y cwestiynau canlynol:

i) A oes angen newid rhai elfennau o ddulliau gweithredu a dibenion strategol cyffredinol Ofcom (a nodwyd ym mharagraffau 2.4 i 2.10 uchod)?

ii) Pa faterion a meysydd y dylai Ofcom roi blaenoriaeth iddynt neu y dylai Ofcom eu hystyried yn brif feysydd gwaith yn 2015/16? ac

iii) A oes unrhyw feysydd penodol a ddylai gael eu dadreoleiddio neu eu symleiddio yn y flwyddyn i ddod?

[3] http://www.ofcom.org.uk/files/2014/03/Annual_Plan_1415.pdf

## Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Mae Ofcom yn gofyn am farn a sylwadau ysgrifenedig am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **5pm ar 15 Hydref 2014**.

A1.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion ar y ffurflen ar-lein ar y we ynhttp://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/annual-plan-2015-16-invitation-to-comment, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein cynorthwyo drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), i ddangos a oes unrhyw faterion i'w hystyried ai peidio o ran cyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A1.3 Yn achos ymatebion mwy i'r ymgynghoriad - yn enwedig y rheini sydd â siartiau, tablau neu ddata eraill i'w hategu - dylech eu hanfon drwy e-bost at Will.Pinkney@ofcom.org.uk gan atodi'ch ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen gyflwyno ymateb yr ymgynghoriad.

A1.4 Fel arall, gellir postio neu ffacsio ymatebion i'r cyfeiriad isod, ac enw'r ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.

Ofcom Annual Plan Team
Floor 3
Dept Strategy Team
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffacs: 020 7981 3333

A1.5 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ogystal â fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.6 Byddai o gymorth pe gallech roi atebion uniongyrchol yn eich ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon, sydd wedi'u rhestru gyda'i gilydd yn Atodiad 4. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro'r rhesymau dros eich barn a sut y byddai cynigion Ofcom yn effeithio arnoch chi.

## Rhagor o wybodaeth

A1.7 Os ydych yn dymuno trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch y dull priodol o ymateb, cysylltwch â Will Pinkney ar 020 7981 3890.

## Cyfrinachedd

A1.8 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd o dan sylw yn cael gweld y farn a fynegwyd gan y rheini sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

Felly, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, sef www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid cadw'ch ymateb yn gyfrinachol, a fyddech cystal â nodi pa ran o'ch ymateb y dylid ei chadw'n gyfrinachol, neu a ddylid cadw'r cwbl ohono'n gyfrinachol, a nodi pam. A fyddech cystal â rhoi rhannau o'r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A1.9 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.10 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar y wefan yn http://www.ofcom.org.uk/terms-of-use/

## Y camau nesaf

A1.11 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar y Cynllun Blynyddol Drafft ym mis Rhagfyr 2014.

A1.12 Sylwch y gallwch gofrestru i gael diweddariadau am ddim drwy'r post, sy'n tynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: http://www.ofcom.org.uk/email-updates/

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.13 Mae Ofcom am sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriadau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.14 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.15 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu â Graham Howell, Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sef hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Graham Howell
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601

E-bost Graham.Howell@ofcom.org.uk

### Atodiad 2

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A2.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A2.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu arweiniad byr mewn iaith syml i gyrff llai neu i unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at 10 wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.6 Bydd rhywun o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. 'Hyrwyddwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd o dan sylw yn cael gweld barn pobl eraill yn ystod ymgynghoriad. Fel arfer, byddem yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn disgrifio sut mae barn y rhai a fu'n gysylltiedig wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hynny.

**Atodiad 3**

# Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A3.1 Er mwyn gweithredu'n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddiol da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i ymgynghoriadau'n llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk

A3.2 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny'n briodol.

A3.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen gyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A3.4 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar y we, sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lwytho copi electronig o'r ddalen hon i lawr mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/consultation-response-coversheet/

A3.5 A fyddech cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb y credwch y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb, a nodi eich rhesymau dros beidio â chyhoeddi'r rhan hon o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a'ch profiad personol. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, dylech eu rhoi ar eich dalen gyflwyno'n unig, fel na fydd yn rhaid i ni olygu'ch ymateb.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Cynllun Blynyddol 2015/16 – Gwahoddiad i Gyflwyno Sylwadau

At (cyswllt yn Ofcom): Tîm y Cynllun Blynyddol

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim byd | ☐ | Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ | Sefydliad | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ | Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? | |

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

Atodiad 4

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Is-bennawd

A4.1 Hoffem i chi ystyried y cwestiynau canlynol yng nghyswllt y gwahoddiad hwn i gyflwyno sylwadau:

*Cwestiynau:*
*A oes angen newid rhai elfennau o ddulliau gweithredu a dibenion strategol cyffredinol Ofcom (a nodwyd ym mharagraffau 2.4 i 2.10 uchod)?*

Pa faterion a meysydd y dylai Ofcom roi blaenoriaeth iddynt neu y dylai Ofcom eu hystyried yn brif feysydd gwaith yn 2015/16?

A oes unrhyw feysydd penodol a ddylai gael eu dadreoleiddio neu eu symleiddio yn y flwyddyn i ddod?